Deddf (Iawndal) Terfysg 1886

Ymgynghoriad ar opsiynau ar gyfer adolygiad

Gorffennaf 2003

Ymgynghoriad a baratowyd gan y Swyddfa Gartref.
Mae'r wybodaeth yma i'w chael hefyd ar wefan y Swyddfa Gartref
http://www.homeoffice.gov.uk/inside/consults/current/index.html

Cynnwys

Adolygiad o Ddeddf (Iawndal) Terfysg 1886 ---------- 6

Eich Barn Chi ---------- 7

Budd-ddeiliaid Allweddol ---------- 8

Sut i ymateb ---------- 9

Asesiad Effaith Rheoleiddiol Rhannol ---------- 11

Cydlynydd Ymgynghori ---------- 14

Meini prawf ar gyfer ymgynghori ---------- 14

Atodiad A ---------- 16

Adolygiad o Ddeddf (Iawndal) Terfysg 1886

Crynodeb

1 Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn amlinellu adolygiad gan y Swyddfa Gartref i gefndir a gweithrediad y Ddeddf (Iawndal) Terfysg 1886 ('y Ddeddf'). Mae'n gwahodd barn ynghylch a ddylid: -

- Cadw'r Ddeddf fel ag y mae;
- Diddymu'nr Ddeddf yn llwyr; neu
- Diwygio'r Ddeddf i gyfyngu ar atebolrwydd am hawliadau.

2 Eglurir y sail resymegol ar gyfer pob un o'r opsiynau isod.

Pam adolygu Deddf (Iawndal) Terfysg 1886?

3 Mae'r Ddeddf erbyn hyn yn tynnu at 120 mlwydd oed. Ers tro bellach mae pryderon wedi'u lleisio am weithrediad y Ddeddf. Dadleuir bod cymdeithas a natur plismona wedi newid yn ddramatig yn ystod y ganrif ddiwethaf a bod y Ddeddf yn gynyddol anaddas ar gyfer amodau heddiw.

4 Mae'r ddadl wedi'i seilio ar nifer o faterion:

- A yw'r rhagdybiaeth sy'n sail i'r Ddeddf – mai methiant i ddarparu plismona addas sydd ar fai am derfysgoedd – yn rhesymol ac yn briodol?

- A yw'n rhesymol bod awdurdodau'r heddlu (h.y. y trethdalwr) yn agored i'r posibilrwydd o atebolrwydd heb ei gyfyngu am ddifrod a achosir i eiddo yn sgîl terfysg, pan fo yswiriant ar gael yn gyffredinol ar gyfer y mwyafrif o droseddau i eiddo, fel llosgi bwriadol, lladrata a dwyn ceir, neu pan fo posibilrwydd o dderbyn iawndal drwy'r llysoedd.

- A yw'r Ddeddf yn 'sicrwydd wrth gefn' angenrheidiol ac effeithiol ar gyfer cymunedau diamddiffyn, o gofio bod y rhan fwyaf o bolisïau yswiriant yn eithrio difrod yn sgîl terfysg ac y gallai cael yswiriant ar sail fasnachol fod yn ddrud? Neu a yw'r ffaith fod y Ddeddf yn bodoli yn camliwio'r ffordd y mae'r farchnad yn gweithredu, gan leihau'r dewis i'r cymunedau hynny a gweithredu fel anghymhelliad i fuddsoddi o'r tu allan?

5 Penderfynodd y Llywodraeth edrych ar y Ddeddf yn dilyn terfysgoedd yng ngogledd Lloegr yn ystod haf 2001. Ar adeg pan fo gwasanaeth yr heddlu'n mynd trwy raglen o ddiwygio sylweddol mae'n ymddangos yn gyfle priodol i ystyried a yw'r Ddeddf o hyd yn berthnasol i anghenion y 21ain ganrif.

6 Ers i'r adolygiad gael ei gomisiynu, bu terfysg yng nghanolfan gadw Yarls Wood, canolfan sy'n cael ei rhedeg gan y sector preifat dan gontract i'r Swyddfa Gartref. O ganlyniad i'r digwyddiad hwn mae yswirwyr y contractwyr wedi gwneud hawliad sylweddol o dan y Ddeddf. Mae'r hawliad hwn eto i'w benderfynu.

7 Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynnal adolygiad rhagarweiniol o gefndir y Ddeddf ac o hawliadau diweddar a wnaed dan y Ddeddf sydd ynghlwm yn Atodiad A. Mae ymgynghori cychwynnol wedi digwydd gyda budd-ddeiliad o fewn yr heddlu, y diwydiant yswiriant ac adrannau eraill o'r llywodraeth.

8 Rydym yn gobeithio y bydd y ddogfen hon yn darparu sail ar gyfer trafodaeth fwy manwl gyda'r rhai yr effeithir arnynt, neu sydd â diddordeb yn y Ddeddf. Mae'r diddordebau allweddol yn cynnwys llywodraeth ganol a llywodraeth leol, y diwydiant yswiriant, busnesau, cyrff cymunedol a gwirfoddol.

Deddf (lawndal) Terfysg 1886 - Cefndir

9 Mae'r Ddeddf yn tarddu o Ddeddf lawndal yn erbyn y Cantrefi 1827, a roddodd am y tro cyntaf iawndal cyfreithiol yn erbyn difrod yn sgîl terfysg. [Roedd 'Cantref' yn deitl cyfreithiol am gymuned leol hunangynhaliol gyda phwerau i godi treth.] Roedd yr iawndal yn erbyn y 'Cantref' i dalu iawndal i rai wedi dioddef difrod yn sgîl terfysg mewn achosion troseddol gan derfysgwyr yn ymwneud â dymchwel eglwysi, capeli, tai, a pheiriannau.

10 Yn dilyn terfysgoedd 1886 yn Llundain, disodlwyd Ddeddf lawndal yn erbyn y Cantrefi 1827 gan Ddeddf Heddlu Llundain (lawndal) 1886, a ddisodlwyd yn ei thro gan y Ddeddf (lawndal) Terfysg 1886, i gynnwys pob rhan o Loegr a Chymru. Yn yr Alban, mae iawndal am ddifrod yn sgîl terfysg yn dod o dan y Ddeddf *Riotous Assembles* 1822 a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am dalu'r iawndal.

11 Trosglwyddodd Deddf Heddlu Llundain (lawndal) 1886 (a'r Ddeddf (lawndal) Terfysg a'i ddilynodd) y cyfrifoldeb am dalu iawndal am ddifrod yn sgîl terfysg o'r Cantref, lle'r oedd y terfysg wedi digwydd, i'r holl Gantrefi o fewn rhanbarth yr heddlu (ardal weinyddol ar gyfer gwaith yr heddlu). Ni addaswyd yr egwyddor o dalu iawndal am ddifrod yn sgîl terfysg a delid gan gymunedau lleol wrth i gronfeydd yr heddlu barhau i gael eu codi drwy drethu lleol. Yn y 20fed ganrif, newidiwyd rôl a dull ariannu awdurdodau'r heddlu'n sylweddol, ac mae'r rhan fwyaf o gyllid yr heddlu erbyn hyn yn dod o'r llywodraeth ganol.

Deddf (lawndal) Terfysg 1886 – y sefyllfa bresennol

12 Dan Ddeddf (lawndal) Terfysg 1886, mae awdurdodau heddlu yng Nghymru a Lloegr yn gyfrifol am dalu am ddifrod i adeiladau a'u cynnwys pan fydd terfysg wedi digwydd. Ceir diffiniad o derfysg yn adain 1 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986 (1) *"Pan fo 12 neu fwy o bobl sy'n bresennol, fel grŵp o bobl, yn defnyddio neu'n bygwth trais anghyfreithlon at ddiben cyffredin a bod eu hymddygiad (fel grŵp o bobl) o'r fath nes ei fod yn achosi i unigolyn rhesymol gadarn sy'n bresennol yn y lleoliad boeni am ei ddiogelwch personol……."*

13 Nid yw iawndal dan y Ddeddf yn berthnasol i niwed personol, colli busnes neu ddifrod i eiddo y tu allan i adeiladau ac eithrio ar “eiddo sy’n perthyn i’r un unigolyn”.

14 Rhaid gwneud cais am iawndal i awdurdod yr heddlu o fewn 14 diwrnod i’r terfysg ddigwydd. Mewn amgylchiadau lle nad yw hyn yn bosibl rhaid i’r sawl sy’n gwneud y cais geisio estyniad gan yr awdurdod i 42 diwrnod. Rhaid gwneud cais o’r fath o fewn y cyfnod 14 diwrnod. Os gwrthodir estyniad gall y sawl a wnaeth y cais apelio i’r Ysgrifennydd Cartref (o fewn 7 diwrnod) a bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn dyfarnu a ddylid caniatáu’r cais. Mae’r trefniadau hyn wedi’u hamlinellu yn Rheoliadau Iawndal Terfysg 1921.

15 Ar y cyfan disgwylir i awdurdodau’r heddlu gwrdd â’r gost am iawndal terfysg o’u cronfeydd wrth gefn.

16 Yn yr 20 mlynedd diwethaf bu terfysgoedd yn Lloegr a Chymru yn 1981, 1985, 1991, 1995, 2001 a 2002.

17 Nid yw’r wybodaeth sydd ar gael am hawliadau a dalwyd dan y Ddeddf cyn 1995 yn gyflawn. Mae ansawdd y data am daliadau a wnaed o 1995 yn well ond eto mae’n rhaid ei drin â gofal; mae rhai hawliadau sylweddol eto i’w pennu. Er hynny, mae’n cadarnhau bod y mwyafrif o daliadau diweddar (o ran nifer o gwerth) wedi’u gwneud am ddifrod i eiddo busnes.

Deddf (Iawndal) Terfysg – Opsiynau’r adolygiad

18 Yn dilyn yr ymgynghori cychwynnol gyda nifer o fudd-deilliaid ac adolygu cefndir y Ddeddf, terfysgoedd diweddar a hawliadau yn y gorffennol, rydym wedi dynodi tri phrif opsiwn (a) cadw’r Ddeddf heb ei newid (b) ei diddymu'r Ddeddf neu (c) diwygio'r Ddeddf. Ceir Asesiad Effaith Rheoleiddiol Rhannol o’r opsiynau hyn, sy’n cynnwys manylion am hawliadau dan y Ddeddf a dalwyd gan awdurdodau’r heddlu ers 1995, ar dudalen 11.

Opsiwn A – Cadw’r Ddeddf heb ei newid

19 Mae’r opsiwn hwn yn cadw’r sefyllfa fel ag y mae ac mae awdurdodau’r heddlu’n parhau’n gyfrifol am dalu iawndal mewn achosion o hawliadau am ddifrod yn sgîl terfysg.

20 Y brif ddadl o blaid yr opsiwn hwn yw ei bod yn ddyletswydd sylfaenol ar yr heddlu i gadw heddwch. Felly dylai difrod o ganlyniad i anhrefn cyhoeddus difrifol barhau i gael ei dalu gan y trethdalwr. Mae rhai budd-ddeiliaid wedi nodi bod rhai terfysgoedd yn digwydd yn sgîl cwynion am y ffordd y mae cymunedau’n cael eu plismona yn ogystal â gwrthwynebiad i bolisïau cymdeithasol y llywodraeth.

21 Mae’r data ar hawliadau a dalwyd dan y Ddeddf yn nodi bod y mwyafrif o hawliadau llwyddiannus am eiddo busnes. Mae rhai budd-ddeiliaid yn dadlau bod y Ddeddf yn sicrwydd wrth gefn i unigolion a busnesau nad ydynt

yn gallu cael yswiriant am iawndal terfysg masnachol pe digwydd difrod yn sgîl terfysg a bod hyn yn helpu i ddiogelu pobl mewn cymunedau sy'n fregus.

22 Y dadleuon yn erbyn yr opsiwn hwn yw nad yw'r Ddeddf bellach yn berthnasol i bolisïau plismona cyfoes na gweithgareddau gweithredol. Gall terfysgoedd ddigwydd yn sgîl ffactorau na ellir eu rhagweld, sy'n aml heb ddim cysylltiad â gweithgareddau lleol neu bolisïau plismona.

23 Mae cyfleon i bartïon sydd wedi'u tramgwyddo i fwrw ymlaen gydag achosion yn ymwneud â difrod drwy'r llysoedd os oes tystiolaeth bod yr heddlu wedi gweithredu'n esgeulus neu'n anonest. Ond nid yw'r Ddeddf yn cymryd i ystyriaeth a oedd gweithredoedd yr heddlu'n rhesymol dan yr amgylchiadau a oedd yn eu hwynebu.

24 O ran tai a busnesau bach, y mae rhai wedi dadlau y dylid bod yswiriant ar gael am ddifrod yn sgîl terfysg fel risgiau eraill yn sgîl difrod damweiniol neu droseddol.

Opsiwn B – Diddymu'r Ddeddf

25 Byddai hwn yn gosod difrod yn sgîl terfysg ar yr un sail â difrod troseddol arall.

26 Yn gyffredinol nid yw yswiriant am ddifrod yn sgîl terfysg ar gael. Mae rhai budd-ddeiliaid yn dadlau oherwydd bod y Ddeddf yn gosod y risg yma ar awdurdodau'r heddlu, nid oes cymhelliant i'r diwydiant ddarparu yswiriant o'r fath. Mae'r opsiwn yn darparu cyfle i'r diwydiant yswiriant ystyried y galw yn y farchnad am iawndal am ddifrod yn sgîl terfysg a'r lefel o risg.

27 Ond gallai hyn adael pobl heb unrhyw fodd o gael iawndal, oni bai fod y farchnad yn llenwi'r bwlch. Er mai anaml iawn y mae terfysgoedd yn digwydd o hyd, mae'n bosibl na fyddai yswirwyr yn gweld difrod i fusnes yn sgîl terfysgoedd yn fusnes digon atyniadol ddigon apelgar neu y byddai'r yswiriant y tu hwnt i fodd perchnogion tai a busnesau bach sydd wedi tueddu i fod ar eu hennill o dan y Ddeddf.

Opsiwn C – Diwygio'r Ddeddf

28 Y cyfaddawd fyddai cadw rhyw gymaint o yswiriant am ddifrod yn sgîl terfysg o gyllid cyhoeddus gan gyfyngu ar atebolrwydd trwy osod uchafswm syml o gyllid ar gyfer pob hawliad neu gyfyngu mewn ffordd arall er enghraifft canran o werth yr hawliad. Dull arall fyddai targedu'r tai llai cyfoethog a/neu fusnesau bach sy'n debygol o fod angen y cymorth mwyaf o ran gwneud iawn am golledion neu ddifrod difrifol i'w heiddo.

29 Byddai angen gwneud gwaith pellach i sefydlu uchafswm rhesymol i hawliad i sicrhau bod budd-ddeiliad dan yr opsiwn hwn yn cael eu diogelu'n ddigonol.

Eich Barn Chi

30 Byddai'r Llywodraeth yn croesawu eich barn ynglŷn â'r opsiynau y cyfeiriwyd atynt, yn arbennig; -

- **a ddylid delio gyda iawndal am ddifrod yn sgîl terfysg yn wahanol i ddifrod troseddol fel llosgi'n fwriadol neu fyrgleriaeth a risgiau yswiriant eraill fel difrod damweiniol a llifogydd?**

- **a ddylai'r trethdalwr barhau'n atebol am dalu iawndal am ddifrod yn sgîl terfysg drwy awdurdodau'r heddlu a/neu'r Swyddfa Gartref?**

- **beth yw oblygiadau'r opsiynau arfaethedig ar gyfer gwahanol fudd-ddeiliad fel tai, busnesau bach, ac ardaloedd canol dinasoedd?**

31 Mae'n bosibl y bydd opsiynau eraill yn codi yn sgîl yr ymgynghori. Byddem yn croesawu unrhyw ddulliau eraill o ran gweithredu'r opsiynau a godwyd yn y papur hwn.

Budd-ddeiliaid Allweddol

32 Mae'r ddogfen hon yn cael ei hanfon i'r budd-ddeiliaid allweddol canlynol.

Busnes yn y Gymuned
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
Conffederasiwn Diwydiant Prydain
Consortiwm Adwerthu Prydain
Crime Concern
Cymdeithas Arolygwyr yr Heddlu
Cymdeithas Awdurdodau'r Heddlu
Cymdeithas Broceriaid Yswiriant Prydain
Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
Cymdeithas Diwydiant Diogelwch Prydain
Cymdeithas Fusnes Asiaidd
Cymdeithas Gyllid a Phrydlesu
Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu
Cymdeithas Tanysgrifwyr Rhyngwladol
Cymdeithas Yswirwyr Prydain
Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Sefydliadau Gwirfoddol
Cyngres yr Undebau Llafur
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Ffederasiwn Busnesau Bach
Ffederasiwn Cenedlaethol Masnachwyr Marchnad
Ffederasiwn Eiddo Prydain
Ffederasiwn Fusnes Asiaidd
Ffederasiwn yr Heddlu
Gwasanaeth Busnesau Bach
Heddlu Trafnidiaeth Prydain
Lloyds of London
Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn
Sefydliad Busnesau Asiaidd
Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Senedd yr Alban
Siambr Fasnach Prydain
Swyddfa Twyll Difrifol
Uned Eithrio Cymdeithasol

Sut i Ymateb

33 Anfonwch eich ymateb erbyn **(rhowch y dyddiad/isafswm 12 wythnos)** at:

James Austin Brady

Police Resources Unit

Crime Reduction and Community Safety Group

Home Office

5th Floor, West Wing

Queen Anne's Gate

London

SW1E 5EB

Ffôn: (020 7273 2633)

Ffacs: (020 7273 3733)

Ebost: james.brady2@homeoffice.gsi.gov.uk

34 A fyddech gystal â chwblhau'r manylion sy'n dilyn:

Enw:

Sefydliad/Cwmni:

Cyfeiriad y Sefydliad/Cwmni/Unigolyn:

Rhif Ffôn:

35 Os mai grŵp cynrychioladol ydych rhowch grynodeb o'r bobl a'r sefydliadau yr ydych chi'n eu cynrychioli.

36 Mae copïau ychwanegol o'r papur hwn ar gael drwy ein gwefan http://www.homeoffice.gov.uk/inside/consults/current/index.html

37 Ni fydd cyfraniadau unigol yn cael eu cydnabod oni bai y gwneir cais penodol i wneud hynny.

38 Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

---

39 Mae'n bosibl y bydd angen i'r wybodaeth yr anfonwch atom gael ei hanfon ymlaen i gydweithwyr o fewn y Swyddfa Gartref a'i chyhoeddi mewn crynodeb o'r ymateb ar ein gwefan - *www.homeoffice.gov.uk/*. **Byddwn yn cymryd yn ganiataol eich bod yn fodlon i ni wneud hyn, ac os byddwch yn ymateb trwy gyfrwng e-bost, y bydd eich caniatâd yn diystyru unrhyw ymwadiad cyfrinachedd o fewn system TG eich sefydliad, oni bai eich bod yn gwneud cais penodol i'r gwrthwyneb yn y prif ran o'ch cais atom.**

40 **Ceisiwch sicrhau eich bod wedi'i nodi'n glir yn eich ymateb os ydych am gadw eich ymateb neu eich enw yn gyfrinachol**. Bydd ymatebion cyfrinachol yn cael eu cynnwys mewn unrhyw grynodeb ystadegol o nifer o sylwadau a dderbyniwyd a barn a fynegwyd. Gellir gwneud cais am grynodeb o'r canfyddiadau.

41 Gellir cael mwy o gopïau o'r papur ymgynghorol hwn, neu gopi Saesneg, gan **James Austin Brady** o'r cyfeiriad uchod neu drwy ffonio **020 7273 2633**.

Cydlynydd Ymgynghori

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses o ymgynghori, dylech gysylltu â Geraldine Lilley, cydlynydd ymgynghori y Swyddfa Gartref, trwy ebost - geraldine.lilley@homeoffice.gsi.gov.uk. Neu, os yw'n well gennych, gallwch ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Geraldine Lilley
Consultation Co-ordinator,
Home Office
7Th Floor Orange Area
Dean Ryle Street
London SW1P 2AW

Meini prawf ar gyfer ymgynghori

Mae'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori Ysgrifenedig gan Swyddfa'r Cabinet yn cynnwys y meini prawf canlynol:

A Dylai amseriad yr ymgynghori gael ei ymgorffori yn y broses gynllunio ar gyfer polisi neu wasanaeth o'r dechrau, fel bod y cyfle gorau posibl ar gyfer gwella'r cynigion dan sylw, ac fel bod amser digonol ar ôl ar ei gyfer ym mhob cam.

B Dylid bod yn glir ynglŷn â – gyda phwy yr ymgynghorir, ynglŷn â pha gwestiynau, o fewn pa amserlen ac at ba ddiben.

C Dylai dogfen ymgynghorol fod mor syml a chryno â phosibl. Dylai gynnwys crynodeb, dwy dudalen ar y mwyaf, o'r prif gwestiynau y mae am gael ymateb iddynt. Dylai sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i ddarllenwyr ymateb, gysylltu neu gwyno yn ei chylch.

D Dylid sicrhau bod y dogfennau ar gael yn eang, gan wneud defnydd llawn o'r dulliau electronig (er nad drwy eithrio eraill), a'u dwyn i sylw'r holl grwpiau ac unigolion â diddordeb.

E Dylid rhoi amser digonol i'r holl grwpiau â diddordeb allu ystyried eu hymateb. Yr Isafswm cyffredinol ar gyfer cyfnod ymateb yw deuddeng wythnos.

F Dylid dadansoddi pob ymateb yn ofalus, gyda meddwl agored, a sicrhau bod y canlyniadau ar gael yn eang, gyda chofnod o'r farn a fynegwyd, a'r rhesymau am y penderfyniadau terfynol a wnaed.

G Dylai adrannau fonitro a gwerthuso ymgynghoriadau, gan ddynodi cydlynydd ymgynghori a fydd yn sicrhau bod canlyniadau'r broses cael eu lledaenu.

Mae'r cod ymarfer llawn ar gael yn: www.cabinet-office.gov.uk/servicefirst/2000/consult/code/ConsultationCode.htm yn Saesneg ac yn y Gymraeg.

Mae eich barn yn werthfawr i ni. Diolch am neilltuo amser i ddarllen y ddogfen hon ac am ymateb iddi.

Atodiad A

HEDDLU	**ACHOS O DERFYSG**	**CYFANSWM NIFER O HAWLIADAU A WNAED**	**MATH O EIDDO YR EFFEITHIWYD ARNO**	**CYFANSWM GWERTH Y TALIADAU AWNAED GAN AWDURDOD YR HEDDLU[1]**
West Yorkshire	Bradford, 1995	20	Yr holl hawliadau am ddifrod i fusnesau	£240,081.67
West Yorkshire	Leeds, 1995	4	Yr holl hawliadau am ddifrod i fusnesau	£239,887.00
West Yorkshire	Huddersfield, Mawrth/ Mai 2001	2	Yr holl hawliadau am ddifrod i fusnesau	£19,352.00
West Yorkshire	Bradford, 15 Ebrill 2001	3	Yr holl hawliadau am ddifrod i fusnesau	£420,000
West Yorkshire	Bradford, Gorffennaf 2001	37	33 o hawliadau am ddifrod i fusnesau, 2 o hawliadau ar gyfer Eiddo Preifat, 2 o hawliadau am ddifrod i glybiau cymdeithasol preifat.	c. £30,000[2]
Lancashire	Burnley, 2001	16	2 o hawliadau am ddifrod i fusnesau	Ddim ar gael
Greater Manchester	Oldham, 2001	28	22 o hawliadau am ddifrod i fusnesau a 6 am ddifrod i eiddo preifat.	£8963.91
Bedfordshire	Yarl's Wood	1	Canolfan Gadw	£0
Cyfansymiau		**111**	**86 Busnes, 8 Eiddo Preifat, 2 Glwb Cymdeithasol Preifat, 1 Ganolfan Gadw.**	**£928,284.58**

[1] Ar 29ain Ebrill 2003

[2] Mae hawliadau sydd i'w prosesu yn amodol ar *addasu'r colledion*.